# Gweinyddwr Cymorth – Diogelwch Tân

**Swyddfa Diogelwch Tân**
**Swyddfa Ardal Conwy / Gweithio Hyblyg**
**Parhaol, 14.8 awr yr wythnos**
**NWFRS Gradd 04 £11,443 - £11,816 y flwyddyn**
**(£28,608 i £29,542 y flwyddyn, pro rata, cyfwerth ag amser llawn)**

Gan ddarparu cymorth gweinyddol i'r timau Diogelwch Tân Cymunedol a Busnes yn ardal Conwy a Sir Ddinbych, chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau llafar ac ysgrifenedig i'r adran. Mae hyn yn cynnwys derbyn atgyfeiriadau cyfrinachol gan aelodau o'r cyhoedd, asiantaethau partner neu sefydliadau allanol a mewnbynnu'r wybodaeth yn gywir yn y system rheoli cofnodion. Byddwch yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd mewnol ac allanol, cymryd nodiadau a pharatoi agendâu a nodiadau cyfarfodydd. Bydd dyletswyddau gweinyddol cyffredinol yn cynnwys teipio llythyrau ac adroddiadau, cynhyrchu ystadegau o'r systemau rheoli cofnodion, ffeilio a chefnogi'r timau yn ôl yr angen.

Byddwch yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid da, profiadol mewn trefnu a chefnogi cyfarfodydd ac yn barod i helpu eraill. Gyda sgiliau trefnu da i reoli eich llwyth gwaith eich hun a bodloni dyddiadau cau, bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn addasadwy i newid i ddelio â cheisiadau wrth iddynt godi a chael y gallu i weithio'n annibynnol gan ddefnyddio eich menter eich hun.

Fel sefydliad dwyieithog, mae'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg (Lefel 4) yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae'r tîm wedi'u lleoli ym Mae Colwyn ond bydd y rôl hefyd yn darparu cefnogaeth reolaidd i'n tîm Diogelwch Tân arall ac felly efallai y bydd angen rhai teithio i'r swyddfeydd Diogelwch Tân eraill hyn o fewn ardal y Gwasanaeth.

Sylwch fod y swydd hon yn destun gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys Gwiriad DBS, prawf Cyffuriau ac Alcohol a geirdaon boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi'i wario neu heb ei wario) ar y DBS, bydd dull seiliedig ar risg ar reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar weithiwr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: mailto:recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ffurflen gais yw 12.00 hanner dydd, 16/10/2026 a disgwylir i'r cyfweliadau ddigwydd wythnos yn dechrau 26/10/2026**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost

Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall

Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.